# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Diwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i alluogi pob gweithiwr chwarae a gofal plant sy'n gweithio yn y sector gofal plant i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol.** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Tîm Polisi'r Gweithlu** |
| **Adran:** | **Is-adran Gofal Plant, Gwaith Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Ruth Conway** |
| **Ysgrifennydd Cabinet/y Gweinidog cyfrifol:** | **Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol (Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar)** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **Medi 2022**<br><br>**Diweddarwyd Tachwedd 2023 a Mawrth 2024** |

## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

***Trosolwg***

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru[1] yw datblygu gweithlu chwarae a gofal plant medrus sy'n cael ei ystyried yn broffesiwn uchel ei barch ac yn yrfa o ddewis, gyda'r nod clir o sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

***Gofal Cymdeithasol Cymru***

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) yn gorff strategol uchel ei broffil sy'n cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru. Mae'n canolbwyntio ar weithredu i feithrin hyder, ceisio gwella a chefnogi datblygiad y gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Ei weledigaeth yw: *Gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal a chymorth yng Nghymru i blant, oedolion a'u teuluoedd a'u gofalwyr*

GCC yw partner strategol[2] Llywodraeth Cymru o ran cefnogi'r gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru. Mae'n cyflawni'r rôl hon ers nifer sylweddol o flynyddoedd.

Fel arbenigwr mewn materion yn ymwneud â'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, mae'n arwain y gwaith o ddatblygu'r gweithlu ac yn sicrhau bod trefniadau sylfaenol hanfodol ar waith sy'n diwallu anghenion y sector, fel fframweithiau prentisiaethau a darpariaeth hyfforddiant o ansawdd.

Mae ei waith yn golygu ei fod yn:

- Datblygu ac adolygu cymwysterau cenedlaethol yn seiliedig ar dystiolaeth[3] ac ymgysylltu, ac yn cynnal y fframwaith cymwysterau ar gyfer y rheini sy'n gweithio ym maes gofal plant a'r blynyddoedd cynnar.
- Gosod safonau cenedlaethol clir[4] fel bod gan y gweithlu'r wybodaeth a'r sgiliau i'w hamddiffyn, eu grymuso a'u cefnogi.
- Gweithio gydag eraill i sicrhau bod y cymorth yn diwallu anghenion y gweithlu yn y ffordd orau.
- Datblygu a rhannu adnoddau arfer gorau[5] gyda'r gweithlu.

---

[1] Cynllun gweithlu gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar | LLYW.CYMRU

[2] Gofal Cymdeithasol Cymru | Hafan - Gofal Cymdeithasol Cymru

[3] Cymwysterau Cymru / Diwygio cymwysterau mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn dilyn adolygiad

[4] Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol | Gofal Cymdeithasol Cymru

[5] Adnoddau blynyddoedd cynnar a gofal plant | Gofal Cymdeithasol Cymru

## *Y cyd-destun a'r sefyllfa bresennol*

- ***Cylch gwaith GCC***

Mae cylch gwaith GCC yn cael ei ddatblygu a'i gytuno bob blwyddyn yn seiliedig ar y ddealltwriaeth bod ei rôl yn cynnwys cymorth i bawb sy'n gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Gan weithio mewn partneriaeth agos â sefydliadau cenedlaethol ee Cwlwm, Chwarae Cymru a Plant yng Nghymru, mae'n sicrhau bod ei waith o fudd i'r gweithlu mewn sawl maes, gydag arbenigedd penodol[6] cyrff eraill yn cael ei ddefnyddio lle bo angen. Mae Atodiad A yn cynnwys manylion y cymorth mae'n ei gynnig.

- ***Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA)***

O fis Ebrill 2017 ymlaen, rhoddodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) bwerau newydd i GCC i arwain y gwaith o wella gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu y byddai'n cael ei gydnabod fel y corff cyngor sgiliau sector a fyddai'n cefnogi cyflogwyr ***ac*** ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant. Deallwyd bod dyfodiad y Ddeddf hon nid yn unig yn cydnabod cylch gwaith GCC ond yn cryfhau ei gefnogaeth i ***bawb*** sy'n gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Mae ei rôl gryfach yn cael ei chydnabod yng nghynllun 10 mlynedd gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru gyda'r ddealltwriaeth bod y Ddeddf yn darparu cadarnhad cyfreithiol y byddai gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd yn cael eu cydnabod fel Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.

Fodd bynnag, ar ôl edrych yn fanylach ar eiriad y Ddeddf, penderfynwyd ***nad yw*** geiriad RISCA yn darparu'r sail gyfreithiol lawn a chlir ar gyfer y cylch gwaith hwn sy'n cael ei dderbyn a'i gryfhau – sef, os yw darparwr gofal dydd yn sefydliad, dim ond ***yr unigolyn cyfrifol*** sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o'r Mesur y gellid ei gategoreiddio fel Gweithiwr Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn golygu, er bod rôl GCC o ran cefnogi darparwyr/rheolwyr a gweithwyr yn glir ac yn bodoli cyn RISCA, nid yw cwmpas llawn y rôl y mae'n ei chyflawni yn cael ei adlewyrchu yn y Ddeddf. Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn felly'n canolbwyntio ar ddiwygiadau i ddeddfwriaeth RISCA i ganiatáu i reoliadau gael eu gwneud sy'n nodi bod gweithwyr gofal plant i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol, ac i ddarparu sail gyfreithiol gliriach ar gyfer y cymorth y mae GCC yn ei ddarparu i'r gweithlu gofal plant. Fel corff sy'n cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru, mae trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda GCC ac mae'n cefnogi'r diwygiad hwn i ddeddfwriaeth RISCA.

---

[6] Focus on play - childcare providers and practitioners by Play Wales - Issuu
Blynyddoedd Cynnar (childreninwales.org.uk)

- ***Y Rhaglen Lywodraethu***

Mae ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu ynghylch ehangu'r ddarpariaeth gofal plant i bob plentyn 2 oed yng Nghymru, yn ogystal â'r ymrwymiad i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn dibynnu ar y sector yn gynaliadwy ac ar gael gweithlu cymwys a digon o faint fel bod rhieni a theuluoedd yn gallu cael gafael ar y ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt, er mwyn gallu gweithio/hyfforddi.

Mae gwaith GCC fel corff arbenigol sydd â phrofiad sylweddol o gefnogi'r sector yn hanfodol i hyn, ac mae'n gofyn am sail ddeddfwriaethol gliriach er mwyn gallu parhau i gefnogi ac ehangu'r gefnogaeth i bawb yn y gweithlu.

- ***Egwyddorion allweddol y cynnig i ddiwygio geiriad RISCA***

Fel y disgrifir ar hyn o bryd yn adran 79(3)(d)(ii) o Ddeddf 2016, mae 'darparwr gofal dydd i blant' yn golygu'r unigolyn sy'n ddarparwr gwasanaeth yn unig. Nid yw hyn yn cynnwys ei staff. Yr effaith ymarferol yw nad yw gweithwyr gofal plant a chwarae yn dod o fewn y diffiniad cyfreithiol o 'weithiwr gofal cymdeithasol', sy'n cael ei reoleiddio o dan Ddeddf 2016.

Yn y gorffennol, mae rôl GCC fel partner strategol i Lywodraeth Cymru wedi golygu ei fod yn darparu cymorth i bawb sy'n gweithio yn y sector gofal plant.

Pwrpas y diwygiad arfaethedig yw caniatáu i reoliadau gael eu gwneud sy'n nodi bod gweithwyr gofal plant i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol, ac i ddarparu sail gyfreithiol gliriach ar gyfer y cymorth y mae GCC yn ei ddarparu i'r gweithlu gofal plant. Ar ben hynny, er nad oes gwahaniaeth cyfreithiol rhwng pobl sy'n gweithio/cael eu cyflogi mewn lleoliadau gofal dydd a chwarae (mae lleoliadau chwarae'n cael eu cynnwys o fewn ystyr gofal dydd yn adran 19 y Mesur), yn ymarferol, nid yw'r cymorth a ddarperir gan GCC wedi'i ymestyn i bobl sy'n gweithio mewn lleoliadau chwarae (gweithwyr chwarae). Cynigir y bydd unrhyw reoliadau a wneir yn unol â'r diwygiad yn ffurfioli'r gefnogaeth a ddarperir ar hyn o bryd gan GCC i'r sector ac yn sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu i'r sector cyfan (gan gynnwys gweithwyr chwarae).

Felly, mae ein cynnig yn ceisio diogelu a pharhau â rôl GCC mewn perthynas â phob gweithiwr gofal plant, er mwyn sicrhau bod GCC yn gallu darparu'r cymorth hwn yn gyfartal i weithwyr chwarae, a datrys amwysedd cyfreithiol.

Felly, y cam arfaethedig yw diwygio a.79 (3) a fyddai'n caniatáu gwneud rheoliadau sy'n categoreiddio gweithwyr gofal plant a chwarae fel Gweithwyr Gofal Cymdeithasol. Byddai hyn yn cynnwys y gweithwyr hynny sy'n darparu gofal mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae (nid y rheini mewn rolau gweinyddol neu rolau eraill mewn yn y lleoliadau hynny) ac sy'n cael eu cyflogi drwy amrywiaeth o drefniadau contract (parhaol, tymor penodol, dim oriau ac ati, yn ogystal â staff asiantaeth a'r rheini sy'n gwirfoddoli mewn lleoliadau).

Byddai'r diwygiad hwn yn ei gwneud yn glir bod gweithwyr gofal plant a gwaith chwarae yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o 'weithwyr gofal cymdeithasol', sydd eisoes yn cael ei dderbyn ar gyfer gweithwyr gofal plant. Bydd y diwygiad arfaethedig yn rhoi sail ddeddfwriaethol glir i GCC ar gyfer ei waith parhaus gyda'r gweithlu gofal plant. Bydd hyn hefyd yn golygu y gallai ei waith gynyddu o ran cwmpas i gefnogi gweithwyr chwarae.

Bydd y diwygiad hwn yn rhoi mandad clir i GCC gyflawni ei swyddogaethau a bydd yn cadarnhau ei gefnogaeth i'r sector cyfan.

Er y bydd y newid i RISCA yn galluogi GCC i gefnogi chwarae, Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu ar ffurf a hyd a lled y cymorth hwnnw mewn partneriaeth â phartneriaid perthnasol yn y sector, gan gadw mewn cof y cyllid sydd ar gael.

Bydd swyddogion yn edrych ar yr holl opsiynau posibl gyda'r bwriad o ddatblygu dull cynaliadwy a chost-effeithiol o gefnogi'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae, gan ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad presennol yn y sector gwaith chwarae.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cofrestriad proffesiynol ar gyfer y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Mae'n werth nodi nad yw'r cynnig hwn yn cael ei geisio mewn perthynas â hyn. Mae gweithgor wedi cael ei gynnull i fwrw ymlaen â'r gwaith yn y maes hwn ac mae ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau'r sector wedi dod i ben erbyn hyn (7 Mawrth 2024). Nid yw'r diwygiad i RISCA yn gysylltiedig â'r gwaith hwn a'i fwriad yw darparu sail gyfreithiol gliriach ar gyfer gwaith GCC.

- ***Pum ffordd o weithio***

Mae'r cynnig yn ceisio cefnogi pawb yn y sector gofal plant a gwaith chwarae a dod â manteision i blant a theuluoedd yn y **tymor hir**. Mae'r cynnig yn cydnabod bod buddsoddi yn natblygiad gweithlu gofal plant a chwarae medrus iawn a chyllid ar gyfer GCC yn sicrhau bod y sector yn gallu cefnogi plant a'u teuluoedd er mwyn iddynt allu cyflawni eu potensial yn llawn.

Drwy ganolbwyntio ar gydnabod yr holl weithwyr gofal plant a chwarae fel gweithwyr gofal cymdeithasol, rydym yn cymryd camau pwysig i sicrhau eu bod i gyd yn gallu cael eu cefnogi gan y corff sydd ag arbenigedd a phrofiad o wneud hynny ers blynyddoedd lawer. Mae GCC yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau bod y gweithlu'n gallu amddiffyn plant rhag niwed, a thrwy hynny, **atal** profiadau negyddol. Mae cymorth i GCC yn sicrhau bod gweithlu hynod fedrus yn cael ei ddatblygu, sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu gofal plant a chwarae o ansawdd da. Mae eu gwaith i sicrhau'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer cymwysterau, asesu ac ardystio yn golygu bod modd cefnogi staff i ddatblygu a gwneud cynnydd.

Mae swyddogion wedi **ymgysylltu** ac wedi gofyn am **fewnbwn** gan randdeiliaid allweddol gan gynnwys Chwarae Cymru, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Cyngor y Gweithlu Addysg a Gofal Cymdeithasol Cymru, gan nodi beth yw'r cyfle a gyflwynir gan y diwygiad a beth allai neu na allai ddigwydd yn amodol ar ymgynghoriad llawn. Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i'r diwygiad o ran darparu sail gyfreithiol gliriach i GCC gefnogi'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Mae rhanddeiliaid yn deall y bydd y cymorth a fydd yn cael ei gynnig yn cael ei drafod ymhellach â nhw ac yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.

Wrth gynnig y diwygiad hwn, cydnabyddir y byddai gwaith i gefnogi'r sector yn parhau mewn ffordd **gydweithredol**.

Bydd y cynnig yn ceisio dileu amwysedd cyfreithiol ac ymestyn cymorth i waith chwarae, ac mae hyn yn cefnogi ein huchelgais i fynd i'r afael ag **anghydraddoldeb**[7] yn y dyfodol. Bydd y cynnig yn ein helpu i symud ymlaen wrth ystyried materion fel sicrwydd swyddi a galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial.

Gan fod hyn hefyd yn cael ei ystyried yn ffactor cefnogol o ran twf a chynaliadwyedd y sector, bydd felly'n cyfrannu at wireddu'r nod llesiant sy'n ymwneud â **chreu sylfaen gynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol adeiladu arni** a bydd hefyd yn gweithio tuag at y **nodau llesiant sy'n ymwneud â Chymru ffyniannus a mwy cyfartal.**

- ***Manteision***

Mae'r rheini sy'n **cynrychioli'r gweithlu gwaith chwarae** yn pwysleisio bod diffyg corff penodol i gefnogi gweithwyr chwarae, ac yn dweud nad yw'r trefniadau presennol yn ddigonol nac yn gynaliadwy. Byddai'r diwygiad hwn, fel yr adroddwyd gan randdeiliaid a darparwyr allweddol yn y sector, yn golygu bod y rheini sy'n gweithio mewn gwaith chwarae, dros amser, yn teimlo eu bod yn cael eu **cynrychioli** a'u **gwerthfawrogi**'n well. Ar ben hynny, roedd y gwaith a wnaed drwy'r Adolygiad Gweinidogol o Chwarae yn nodi'r angen i **rai swyddogaethau**'r cyngor sgiliau sector gael eu cyflawni'n well ar gyfer y sector. Yn aml mae staff gwaith chwarae yn cyflawni rolau deuol, gan ddarparu cyfleoedd gofal plant a chwarae, ac felly ystyrir bod y diwygiad hwn yn cynnig **cysondeb** i'r gweithwyr hynny.

Yn y tymor byr, byddai'n cynnig cyfleoedd i gael gafael ar **arweiniad/hyfforddiant/adnoddau** sydd ar gael drwy GCC ac i'w cynnwys yn y gwaith o gyflwyno mentrau allweddol fel Fframwaith Sefydlu Cymru GCC.

Mae ffocws GCC ar y sector gofal plant a chwarae hefyd wedi'i fwriadu i helpu i leddfu rhai materion recriwtio a chadw ac felly helpu lleoliadau i fod yn fwy **cynaliadwy**.

Gan mai un o egwyddorion arweiniol y diwygiad arfaethedig hwn yw sicrhau bod corff i gefnogi datblygiad parhaus pawb sy'n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae, bydd y plant y maent yn gofalu amdanynt neu y maent yn eu cefnogi yn elwa hefyd.

- ***Effaith***

Bydd y newid arfaethedig yn dileu amwysedd yn y diffiniadau cyfreithiol a nodir yn y Ddeddf a byddai'n rhoi hyder i ymestyn cymorth mewn meysydd penodol yn y sector – gan gynnwys gwaith chwarae.

Byddai'r diwygiad arfaethedig yn effeithio ar GCC yn bennaf.

Er y byddai trefniadau presennol GCC i gefnogi gweithwyr gofal plant yn parhau, gallai ei waith gynyddu o ran cwmpas. Byddai hyn yn digwydd dros amser, a byddai newid o'r trefniadau presennol yn cael eu rheoli mewn partneriaeth â GCC a phartneriaid eraill ac o fewn y cyllid sydd ar gael. Byddai'r diwygiad arfaethedig, a gwneud unrhyw reoliadau yn y dyfodol sy'n nodi bod gweithwyr gofal plant a chwarae yn cael eu trin fel gweithwyr gofal

---

[7] FGCW_Equalities-Report_W_Proof_05.pdf (futuregenerations.wales)

cymdeithasol, yn galluogi gweithwyr chwarae i gael eu cyfeirio at ragor o'r cymorth a'r cyngor sy'n cael eu darparu gan GCC.

Ar hyn o bryd, rhagwelir **na fyddai'r cynnig hwn yn arwain at unrhyw gost ychwanegol** yn y tymor byr – fodd bynnag, bydd angen cynnal trafodaethau parhaus gyda GCC ynghylch unrhyw gynnydd o ran y gefnogaeth yn y dyfodol ar gyfer chwarae.

Gallai newid y diffiniad ganiatáu i GCC greu un fframwaith cymwysterau i ddisodli'r ddwy restr sy'n bodoli ar hyn o bryd, gan symleiddio mynediad i'r sector. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i GCC hyrwyddo a chefnogi cynaliadwyedd yn y sector gwaith chwarae drwy ei waith recriwtio a chadw staff. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod absenoldeb corff penodol i oruchwylio'r fframwaith cymwysterau gwaith chwarae a datblygiad y gweithlu gwaith chwarae wedi golygu bod Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru wedi cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â chorff fel GCC. Felly, rhagwelir y byddant o bosibl yn teimlo y dylent gadw rhai o'r swyddogaethau a ddylai fod yn gyfrifoldeb i GCC os caiff gweithwyr chwarae eu cydnabod fel gweithwyr gofal cymdeithasol – felly, bydd cydweithio yn allweddol wrth symud ymlaen â'r gwaith hwn.

Mae gweithwyr chwarae yn aml yn dweud eu bod yn cael eu hanghofio yn y sector. Y bwriad yw y byddai corff unigol penodol, dros amser, yn gwella gwelededd pawb sy'n gweithio yn y sector yn ogystal â darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i sicrhau datblygiad, cynaliadwyedd a thwf y sector yn ei gyfanrwydd.

Bydd swyddogion yn edrych ar yr holl opsiynau posibl gyda'r bwriad o ddatblygu dull cynaliadwy a chost-effeithiol o gefnogi'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae, gan ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad presennol yn y sector gwaith chwarae.

- ***Ymgynghori***

Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar gynigion deddfwriaethol sylfaenol ei gynnal dros gyfnod o ddeuddeg wythnos rhwng 17 Awst a 7 Tachwedd 2022. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi a chyhoeddwyd crynodeb ym mis Mehefin 2023. .

Mae'n werth nodi bod ymatebion i ***Bennod 6: Ymestyn y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae*** yr ymgynghoriad wedi datgelu nifer o gamddealltwriaethau ynghylch effaith y newid arfaethedig ar y gweithlu, ac yn benodol y cysylltiad rhwng y diwygiad arfaethedig a'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i archwilio cofrestru'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Fodd bynnag, mae hefyd yn werth nodi bod y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig.

Bydd rhagor o ymgysylltu'n digwydd i sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r diwygiad, unrhyw oblygiadau a'r camau nesaf.

**Atodiad A: Cymorth a ddarperir gan Gofal Cymdeithasol Cymru**

| | |
|---|---|
| **Denu a recriwtio** | Datblygu a chyflwyno Fframwaith Gofalwn Cymru – mae hyn yn cynnwys astudiaethau achos sy'n dangos y rheini sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae ac ymgyrchoedd teledu a chyfryngau cymdeithasol proffil uchel sy'n annog pobl i ymuno â'r sector a gwerthfawrogi'r gweithlu |
| | Sefydlu rhwydwaith llysgenhadon sy'n annog mynediad i'r sector |
| | Cwrs hyfforddiant Cyflwyniad i Ofal Plant |
| | Porth swyddi Gofalwn Cymru – Gall cyflogwyr hysbysebu swyddi mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae am ddim |
| | Canllawiau arfer gorau ar recriwtio |
| **Cymwysterau** | Datblygu cyfres o gymwysterau cenedlaethol ar gyfer gofal plant, chwarae, dysgu a datblygu. Arbenigedd mewn perthynas â safoni a sicrhau ansawdd |
| | Datblygu a chynnal y fframwaith cymwysterau sy'n nodi'r cymwysterau gofynnol/a dderbynnir ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant |
| | Arwain y gwaith o ymateb i ymholiadau am gymwysterau a darparu ymatebion i heriau o ran darparu cymwysterau. |
| | Cyd-arwain (gyda'r Corff Dyfarnu a Chymwysterau Cymru) y gwaith o gynnal adolygiad (interim a llawn) o gymwysterau ac ymateb i argymhellion yr adolygiad |
| | Datblygu proses ar gyfer cydnabod cymwysterau rhyngwladol y rheini sy'n dymuno gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant |

| | |
|---|---|
| | Datblygu ac adolygu'r trefniadau sylfaenol angenrheidiol ar gyfer cymwysterau ee safonau galwedigaethol cenedlaethol, a fframweithiau prentisiaeth |
| | Datblygu Fframwaith Sefydlu Cymru ar gyfer blynyddoedd cynnar a gofal plant, gan ddefnyddio hwn fel gofyniad dysgu a datblygu ar gyfer y rheini sy'n dod i'r sector o'r tu allan i Gymru. |
| | Arwain ar lwybr pontio peilot ar gyfer cydnabod cymwysterau o sectorau cysylltiedig eraill ee addysg, iechyd a gofal cymdeithasol a chwarae. |
| **Cefnogaeth i reolwyr/ymarferwyr** | Hwyluso canolfannau rheolwyr rhithiol i gefnogi amrywiaeth o faterion ee gweithredu Fframwaith Sefydlu Cymru; rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud â chymwysterau; recriwtio |
| | Modiwlau e-ddysgu digidol ar ddiogelu, haint, atal a rheoli a Fframwaith Sefydlu Cymru |
| | Cynhadledd flynyddol a gŵyl ddysgu |
| | Cydnabyddiaeth i'r gweithlu drwy Wobrau a gwobrau Stars of Social Care |
| | Y Fframwaith Iechyd a Llesiant a chardiau gweithwyr gofal ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant |
| | Cymorth gan gymheiriaid a chanolfannau llesiant |
| | Cylchlythyr misol yn amlinellu cefnogaeth ac arweiniad/digwyddiadau ac ati |
| **Arweiniad ac adnoddau** | Amrywiaeth o adnoddau arferion gorau a ddatblygwyd i gefnogi'r sector gan gynnwys: cefnogaeth ar gyfer y flwyddyn gyntaf fel rheolwr; canllawiau ar gyfer goruchwylio a gwerthuso'n dda ac egwyddorion DPP ar gyfer y sector |

| | |
|---|---|
| **Safonau cenedlaethol:**<br><br>**Diogelu** | Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi arwain y gwaith o ddarparu safonau dysgu a hyfforddiant diogelu cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'r rhain yn nodi'r disgwyliadau o ran gwybodaeth, sgiliau, agweddau a gwerthoedd ar gyfer pobl sy'n gweithio gydag oedolion neu blant sydd mewn perygl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod. |
| **Gweithio mewn partneriaeth** | Gan weithio mewn partneriaeth agos â swyddogion polisi/sefydliadau cenedlaethol eraill, mae'n cynnig ei arbenigedd i'r sector mewn perthynas ag effaith/cyflwyno gweithgarwch allweddol ee y fframwaith lleihau arferion cyfyngol. |

## Hawliau Plant

Bydd y diwygiad arfaethedig a amlinellir yn Adran 1 yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar ofal a datblygiad plant, ac felly mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gwblhau yn **Atodiad A**.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Rydym wedi ymgysylltu â'n rhanddeiliaid mewnol ac allanol i ystyried y diwygiad arfaethedig, gan gynnwys unrhyw effeithiau tymor hir posibl ar ansawdd a chynaliadwyedd darpariaeth gofal plant a gwaith chwarae.

Roedd y rhain yn cynnwys Chwarae Cymru, Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru a Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs sy'n cynrychioli gwaith chwarae yn bennaf gyda rhywfaint o sylw i leoliadau gofal plant; Gofal Cymdeithasol Cymru ar y goblygiadau ar gyfer eu llwyth gwaith parhaus ac ychwanegol posibl a Chyngor y Gweithlu Addysg sy'n goruchwylio'r gweithlu addysg.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Rydym o'r farn bod effeithiau'r cynnig a nodir yn Adran 1 yn gadarnhaol i raddau helaeth ar gyfer y gweithlu presennol a'r gweithlu yn y dyfodol. Mae'r nod hirdymor o sicrhau sector gofal plant a gwaith chwarae cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n cael ei werthfawrogi yn parhau i fod mewn golwg wrth geisio'r diwygiad hwn.

Mae cynaliadwyedd y sector gofal plant a gwaith chwarae yn un o effeithiau cadarnhaol y newid arfaethedig drwy gefnogaeth barhaus GCC. Fel rhan allweddol o'r economi sylfaenol, mae'n galluogi rhieni i ddychwelyd i'r gwaith neu i gynyddu eu horiau, ac yn cefnogi'r rheini sy'n gweithio oriau anghyson.

Drwy ddarpariaeth bresennol GCC, bydd cymorth ar gyfer datblygu'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn hanfodol wrth lunio cyfleoedd bywyd:

*Mae blynyddoedd cyntaf unrhyw blentyn yn hanfodol er mwyn gosod y seiliau ar gyfer llesiant gydol oes. Y blynyddoedd hynny sy'n penderfynu sut mae plant yn dod yn eu blaen yn yr ysgol, pa mor dda y maent yn uniaethu ag eraill, ac yn y pen draw, yn dylanwadu ar y math o oedolion y byddan nhw.*

Mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu i gydnabod yr angen i barhau i weithio i gefnogi ac uwchsgilio'r gweithlu i sicrhau bod pawb yn y gweithlu yn cael eu cynnwys a pharhau i ariannu'r corff sy'n eu cefnogi. Bydd hyn yn cynnwys gwaith sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- *Annog a chefnogi pobl i ymuno ac aros yn y sector*
- *Arddangos a gwerthfawrogi gwaith darparwyr gofal plant a gwaith chwarae mewn perthynas â datblygiad plant*
- *Datblygu adnoddau dwyieithog o ansawdd uchel ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus y sector*

Mae'r diwygiad hwn yn ceisio sicrhau bod y sector gwaith chwarae yn cael ei gynnwys yn ffurfiol yn y cymorth a ddarperir gan GCC i sicrhau bod y sector gofal plant a gwaith chwarae cyfan yn teimlo ei fod yn cael ei gynnwys ac yn cael ei ofalu amdano. Bydd y newid hwn yn digwydd dros amser, o fewn y cyllid sydd ar gael ac mewn ymgynghoriad â

rhanddeiliaid allweddol yn y sector megis Chwarae Cymru. Gall darpariaeth gofal plant a gwaith chwarae o ansawdd uchel gael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygiad plentyn a'i helpu i ddatblygu i'w lawn botensial. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant o gefndiroedd difreintiedig yn elwa mwy o ofal plant o safon a'i fod yn gallu helpu i unioni anfanteision datblygiadol a'r bwlch cyrhaeddiad.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**

- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Bydd y diwygiad arfaethedig yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi egwyddor gyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ymwneud ag ymyrraeth gadarnhaol er budd pobl a fydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r cynnig yn cyfrannu at nodau llesiant y Ddeddf, yn enwedig drwy gryfhau cymorth presennol GCC ar gyfer y canlynol:

**Cymru lewyrchus**

- Cefnogi cynaliadwyedd y sector gofal plant a gwaith chwarae fel rhan allweddol o'r economi sylfaenol.
- Tanlinellu'r gwerth y mae'r gweithlu cyfan yn ei gynnig o ran datblygu plant a gwella eu cyfleoedd mewn bywyd
- Cefnogi datblygiad gyrfa a rhagolygon y dyfodol pawb sy'n rhan o'r gweithlu sy'n lleihau'r risg o dlodi ac yn cynorthwyo twf economaidd
- Cefnogi'r gweithlu cyfan drwy fuddsoddiad parhaus i ddatblygu lefelau eu sgiliau a'u cyfleoedd cyflogaeth.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**

- Mae cymorth ar gyfer gofal plant a darpariaeth chwarae yn sicrhau bod pob plentyn yn gallu elwa o ddarpariaeth o safon, gan leihau'r bwlch rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig yn ein cymunedau; ac
- Yn ei dro, gall darpariaeth gofal plant a chwarae gael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol plentyn a'i helpu i ddatblygu i'w lawn botensial.
- Ymrwymo i ddatblygu'r gweithlu i sicrhau eu bod nhw a'r plant maent yn gofalu amdanynt yn gallu cyflawni eu potensial yn llawn

### 8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Mae’r diwygiad arfaethedig wedi bod yn destun ymgynghoriad, ac roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion a gafwyd o blaid y diwygiad hwn.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chyrff allweddol y sector ar y cynnig i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth dda o effaith y diwygiad.